



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
The Subordinate Legislation Committee**

**Dydd Mawrth, 4 Mawrth 2008
Tuesday, 4 March 2008**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest
- 4 Offerynnau ac Offerynnau Drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei Wahodd i Roi Sylw Arbennig Iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.2 ac Offerynnau sy'n Agored i gael eu Dirymu yn Unol â Phenderfyniad gan y Cynulliad (Y Weithdrefn Negyddol)
Instruments and Draft Instruments in Respect of which the Assembly is Not Invited to Pay Special Attention Under Standing Order No. 15.2 and Instruments Subject to Annulment Pursuant to a Resolution of the Assembly (Negative Procedure)
- 4 Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei Wahodd i Dalu Sylw Arbennig Iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.3 ac Offerynnau sy'n Agored i gael eu Dirymu yn Unol â Phenderfyniad gan y Cynulliad (Y Weithdrefn Negyddol)
Instruments in Respect of which the Assembly is Invited to pay Special Attention under Standing Order No. 15.3 and Instruments Subject to Annulment Pursuant to a Resolution of the Assembly (Negative Procedure)
- 6 Craffu ar y Cynnig ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008
Scrutiny of Proposal for a Learning and Skills (Wales) Measure 2008
- 7 Unrhyw Fater Arall
Any Other Business
- 9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf
Date of the Next Meeting

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor. Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Alun Davies	Llafur Labour
Andrew R.T. Davies	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
David Lloyd	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)
Sandy Mewies	Llafur (yn dirprwyo ar ran Karen Sinclair) Labour (substitute for Karen Sinclair)

Swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol
Assembly Parliamentary Service officials in attendance

Anna Daniel	Clerc Clerk
Gwyn Griffiths	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Joanest Jackson	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Olga Lewis	Dirprwy Glerc Deputy Clerk

Dechreuodd y cyfarfod am 8.16 a.m.
The meeting began at 8.16 a.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest

[1] **David Lloyd:** Mae'r awr benodedig wedi cyrraedd. Croeso i gyfarfod Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad. Croesawaf fy nghyd-Aelodau a swyddogion i'r cyfarfod. Os bydd argyfwng, bydd y tywyswyr yn eich arwain at yr allanfa agosaf. Gellir defnyddio'r clustffonau i gael cyfieithiad ar y pryd ac i addasu lefel y sain. Gall y tywyswyr ddangos i'r cyhoedd sut i ddefnyddio'r clustffonau. Rhaid diffodd unrhyw ffonau symudol yn llwyr. Mae'r cyfieithiad ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ar sianel 1, a gellir clywed cyfraniadau yn yr iaith wreiddiol ar sianel 0.

David Lloyd: The appointed hour is upon us. Welcome to this meeting of the Assembly's Subordinate Legislation Committee. I welcome my fellow Members and officials to the meeting. In the event of an emergency, the ushers will guide you to the nearest exit. Headsets are available for simultaneous translation and amplification. The ushers can show members of the public how to operate the headsets. All mobile phones must be switched off completely. The simultaneous translation from Welsh to English is available on channel 1, and contributions in the floor language are available on channel 0.

[2] Yr ydym wedi derbyn ymddiheuriadau gan Karen Sinclair. Bydd Sandy Mewies yn dirprwyo ar ran Karen y bore yma. Croeso, Sandy, yn ôl i'r hen bwyllgor. A oes unrhyw ymddiheuriadau eraill? Gwelaf nad oes.

We have received apologies from Karen Sinclair. Sandy Mewies is substituting for Karen this morning. Welcome back to the old committee, Sandy. Are there any other apologies? I see not.

8.17 a.m.

Offerynnau ac Offerynnau Drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei Wahodd i Roi Sylw Arbennig Iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.2 ac Offerynnau sy'n Agored i gael eu Dirymu yn Unol â Phenderfyniad gan y Cynulliad (Y Weithdrefn Negyddol)

Instruments and Draft Instruments in Respect of which the Assembly is Not Invited to Pay Special Attention Under Standing Order No. 15.2 and Instruments Subject to Annulment Pursuant to a Resolution of the Assembly (Negative Procedure)

- [3] **David Lloyd:** Mae Joanest wedi bod yn craffu ar SLC113, Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2008, SLC114, Rheoliadau Gorchymynion Ad-dalu Rhent (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2008, SLC115, Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008, ac SLC116, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2008. Mae'n amlwg fod Joanest wedi bod yn hynod brysur. A oes unrhyw beth i'w ychwanegu at yr adroddiadau gerbron, Joanest?
- David Lloyd:** Joanest has been scrutinising SLC113, Agricultural Holdings (Units of Production) (Wales) Order 2008, SLC114, Rent Repayment Orders (Supplementary Provisions) (Wales) Regulations 2008, SLC115, Fire and Rescue Authorities (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2008, and SLC116, Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 2008. Joanest has obviously been incredibly busy. Is there anything to add to the reports before us, Joanest?
- [4] **Ms Jackson:** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu ar y rhain.
- Ms Jackson:** I have nothing to add on these.
- [5] **David Lloyd:** A oes unrhyw sylw? Gwelaf nad oes. Mae pawb yn hapus i'w derbyn, felly. Diolch yn fawr.
- David Lloyd:** Are there any comments? I see not. Therefore, everyone is happy that they are carried. Thank you.
- [6] Symudwn ymlaen at Gwyn, sydd wedi bod yn craffu ar SLC117, Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2008. A oes unrhyw beth i'w ychwanegu, Gwyn?
- We will turn to Gwyn, who has been scrutinising SLC117, Street Works (Fixed Penalty) (Wales) (Amendment) Regulations 2008. Is there anything to add, Gwyn?
- [7] **Mr Griffiths:** Nac oes. Mae'r rhain yn rheoliadau syml iawn. Maent yn cywiro gwall yn y rheoliadau a ddaeth gerbron y pwyllgor ychydig wythnosau yn ôl. Maent i'w croesawu.
- Mr Griffiths:** No. These are simple regulations. They correct a mistake in the regulations that were presented to the committee a few weeks ago. They are to be welcomed.
- [8] **David Lloyd:** Diolch yn fawr. A oes unrhyw sylw? Gwelaf nad oes. Mae pawb yn hapus i'w derbyn.
- David Lloyd:** Thank you. Are there any comments? I see not. Everyone is happy that these are carried.

8.19 a.m.

Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei Wahodd i Dalu Sylw Arbennig Iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.3 ac Offerynnau sy'n Agored i gael eu Dirymu yn Unol â Phenderfyniad gan y Cynulliad (Y Weithdrefn Negyddol)

Instruments in Respect of which the Assembly is Invited to pay Special Attention under Standing Order No. 15.3 and Instruments Subject to Annulment Pursuant to a Resolution of the Assembly (Negative Procedure)

[9] **David Lloyd:** Y ddeddfwriaeth i'w hystyried yw SLC114, Rheoliadau Gorchmynion Ad-dalu Rhent (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2008. Pwy sy'n adrodd ar y rheoliadau hyn?

David Lloyd: The legislation under consideration is SLC114, Rent Repayment Orders (Supplementary Provisions) (Wales) Regulations 2008. Who is reporting on these regulations?

[10] **Ms Jackson:** Although there were no points to report in respect of this instrument under Standing Order No. 15.2, you may wish to consider drawing this to the attention of the Assembly under Standing Order No. 15.3(i), as it contains a provision that could require local authorities to make a payment back to the consolidated fund. I bring it to you because you have discretion as to whether you choose to report this. It is of note, as it is the first instrument, I think, that we have come across that contains such a provision.

8.20 a.m.

[11] **David Lloyd:** Diolch, Joanest. A oes unrhyw sylwadau?

David Lloyd: Thank you, Joanest. Are there any comments?

[12] **Eleanor Burnham:** Beth mae hyn yn ei olygu i ni? Beth mae'r gwrthbleidiau yn gallu ei wneud i gwestiynu a monitro hyn?

Eleanor Burnham: What does this mean for us? What can opposition parties do to question and monitor this?

[13] **Ms Jackson:** It is not a deficiency in the provision; it is more of an informative report and something on which you have discretion as to whether or not you wish to draw it to the Assembly's attention. It will be down to local authorities to make the payments should the circumstances set out in regulation 4 of the Order come about—where they may have recovered money under a rent repayment Order, if it is not applied for the purposes specified in the Order, they would be required to repay it to the consolidated fund.

[14] **Sandy Mewies:** What would happen if we were not notified here? Would the local authorities be notified anyway?

[15] **Ms Jackson:** That is in the regulations. This is the notification to draw this to the Assembly's attention.

[16] **Sandy Mewies:** It would be a point to note, I would think.

[17] **Ms Jackson:** It would be a point to note. There is no deficiency and there would be no action by the Assembly.

[18] **Sandy Mewies:** I do not think that there is any harm in this, Chair.

[19] **Ms Jackson:** It is the first one and is of note because of that, as much as for any other reason.

[20] **David Lloyd:** Diolch, Joanest. Yn unol â'r drafodaeth, yr wyf yn argymhell bod y pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn. Yn dilyn sylw Sandy, hoffwn ddweud bod hwn yn cael sylw

David Lloyd: Thank you, Joanest. In line with the discussion, I recommend that the committee invites the Assembly to give this instrument special consideration. Following Sandy's comments, I wish to say that this is

arbennig gan mai dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd, ac mae'n hollol ddilys ein bod yn nodi hwn ac yn rhoi sylw arbennig iddo. Mae'n dangos i weddill y Cynulliad bod y pwyllgor hwn yn craffu ar reoliadau mewn cryn fanylder.

being given special consideration as it is the first time that this has happened, and it is completely appropriate for us to note this and to give it special consideration. It shows the rest of the Assembly that this committee scrutinises regulations in some detail.

[21] A oes unrhyw sylwadau eraill? Gwelaf nad oes.

Are there any other comments? I see that there are not.

8.22 a.m.

Craffu ar y Cynnig ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 Scrutiny of Proposal for a Learning and Skills (Wales) Measure 2008

[22] **David Lloyd:** Byddwch yn cofio'r drafodaeth flaenorol ar y mater hwn. Mae papurau wedi cael eu cyflwyno i chi. Y bwriad yw craffu ar y cynnig ar gyfer y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008. Byddwch yn cofio i'r pwyllgor hwn graffu mewn cryn fanylder ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG rai wythnosau yn ôl. Yr ydym wedi cytuno eisoes, yn y cyfarfod ar 19 Chwefror, bod y cynnig sydd gerbron heddiw hefyd yn teilyngu i'r pwyllgor hwn graffu arno mewn rhyw fath o fanylder. I'r perwyl hwnnw, ac yn unol â phenderfyniad y pwyllgor, mae Gwyn wedi paratoi adroddiad, yr ydych wedi ei weld. A ydych am arwain y drafodaeth ar y Mesur hwn, Gwyn, ac yna cawn drafod y ffordd ymlaen?

David Lloyd: You will recall the prior discussion on this issue. Papers have been presented to you. The intention is to scrutinise the Proposed Learning and Skills (Wales) Measure 2008. You will recall that this committee scrutinised in some detail the Proposed NHS Redress (Wales) Measure a few weeks ago. We have already agreed, on 19 February, that the proposal before us today deserves to be scrutinised by the committee in some detail. To that end, and in line with the committee's decision, Gwyn has prepared a report, which you have seen. Do you wish to lead the discussion on this Measure, Gwyn, and then we will discuss the way forward?

[23] **Mr Griffiths:** Fel y gwelwch, mae'r papur hwn wedi ei gyhoeddi gan y Llywodraeth. Cynigion ar gyfer y Mesur yw'r rhain, felly mae hwn yn gam cynharach yn y broses na'r cam lle y bu i ni ystyried y Mesur ynghylch y gwasanaeth iechyd. Ymgynghoriad yw hwn, felly mae'n gyfle i ddylanwadu ar gynnig y Llywodraeth cyn iddo gael ei gyhoeddi'n ffurfiol ger bron y Cynulliad. Yr wyf wedi paratoi nodyn eithaf byr ynghylch is-ddeddfwriaeth o dan y Mesur arfaethedig, ac yr wyf wedi nodi yn yr atodlen yr adrannau hynny o'r Mesur a fyddai'n rhoi pwerau is-ddeddfu. Nid oes dim syfrdanol i'w nodi yn yr achos hwn; nid yw'r Mesur, er enghraifft, yn rhoi pwerau fframwaith i'r Llywodraeth, yn wahanol i'r Mesur iechyd, ond mae'n rhoi pwerau penodol iddi weithredu'r Mesur hwn. Nid oes dim yr hoffwn dynnu eich sylw ato'n

Mr Griffiths: As you can see, this paper was published by the Government. These are proposals for the Measure, so this is an earlier stage of the process than the stage at which we considered the health service Measure. This is a consultation, so it is an opportunity to influence the Government's proposal before it is formally issued before the Assembly. I have prepared a brief note on secondary legislation under the proposed Measure, and I have noted in the annex the sections of the Measure that would give powers to make secondary legislation. There is nothing surprising to note in this case; the Measure, for example, does not give the Government framework powers, unlike the health Measure, but it gives it specific powers to implement this Measure. There is nothing that I wish to specifically draw to your attention. It is up to the committee to decide

benodol. Lle'r pwyllgor yw penderfynu a yw am graffu ar hwn yn fwy manwl ar hyn o bryd fel rhan o'r broses ymgynghorol, neu a yw am ei ystyried yn y man, pan ddaw ger bron y pwyllgor yn fwy ffurfiol.

[24] **David Lloyd:** Diolch, Gwyn. Mae hwn yn fater i'w drafod. Rôl y pwyllgor hwn yw trafod materion deddfwriaethol neu is-ddeddfwriaethol yn unig, ac nid materion polisi.

[25] Felly, beth yw eich barn am y ffordd ymlaen o ran hyn? Gallem graffu ar y Mesur yn awr a gwahodd aelod o'r Llywodraeth i roi gwybodaeth bellach am ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur. Efallai y dylem gynnig hwnnw fel ffordd ymlaen, oherwydd, fel y dywedais eisoes, yr ydym wedi cytuno i graffu ar y Mesur hwn ac felly rhaid cytuno ar sut y byddwn yn gwneud hynny.

[26] **Eleanor Burnham:** Gan ein bod newydd gael y papurau hyn, nid ydym wedi cael llawer o gyfle i'w darllen. Oni fyddai'n ddoethach i ni gael amser i edrych arnynt, a dod yn ôl i'w trafod yr wythnos nesaf?

[27] **David Lloyd:** Dyna un ffordd ymlaen.

[28] **Sandy Mewies:** I propose that we follow your suggestion.

[29] **David Lloyd:** Gallem wneud y ddau: gallem wahodd Gweinidog neu lefarydd i'r pwyllgor ac, yn y cyfamser, byddwn wedi darllen y papurau angenrheidiol. Mae'r dull hwnnw'n cynnwys y ddau gynnig. A yw pawb yn cytuno â hynny? Gwelaf eich bod.

8.26 a.m.

Unrhyw Fater Arall Any Other Business

[30] **David Lloyd:** Ychydig wythnosau yn ôl, codwyd mater amseru ein cyfarfodydd gan rai ohonoch, gan inni ohirio cyfarfod yr wythnos diwethaf gan nad oedd ond dau ddarn o is-ddeddfwriaeth ger ein bron. Nid wyf am fynd dros drafodaeth yr ydym eisoes wedi'i chael, ond yr oeddwn am argymhell i'r clerch ystyried a fyddai'n bosibl cael slot gwahanol i'r cyfarfod hwn pan nad oes materion o bwys ger ein bron. Credaf i ni

whether it wishes to scrutinise this in more detail now as part of the consultation process, or whether it wishes to consider it when it comes before the committee in a more formal capacity.

David Lloyd: Thank you, Gwyn. This is an issue for discussion. The committee's role is to discuss items of legislation or secondary legislation only, and not policy issues.

So, what do you think about the way forward on this? We could scrutinise the Measure now and invite a member of the Government to give further details on the provisions of the Measure's subordinate legislation. Perhaps we should propose that as a way forward because, as I have already said, we have agreed to scrutinise the Measure and so we must now agree on how we will do that.

Eleanor Burnham: As we have only just received these papers, we have not had much opportunity to read them. Would it not be wiser for us to have more time to look at them, and return to discuss them next week?

David Lloyd: That is one way forward.

David Lloyd: We could do both: we could invite the Minister or a spokesperson to the committee and, in the meantime, we will have had time to read the necessary papers. That approach includes both proposals. Does everyone agree with that? I see that you do.

gytuno y dylem barhau â'r slot 8.15 a.m. os oeddem yn trafod rhywbeth sylweddol, fel craffu ar Fesur, ond y dylem geisio amser gwahanol os oeddem yn cyfarfod ar frys. Fodd bynnag, oherwydd popeth sydd ynghlwm wrth drefnu cyfarfodydd swyddogol yn y Cynulliad, fel y trefniadau o ran staff a'r gwasanaeth cyfieithu, yr wyf am gael gair gydag Anna i weld a allwn ddod o hyd i slot gwahanol pan fyddwn yn cwrdd am gyfnod byr yn unig. Mae hwnnw'n awgrym i leddfu pryderon rhai ohonoch.

[31] **Eleanor Burnham:** A fyddai'n bosibl i ni gyfarfod am 8.30 a.m. pan fydd gennym ond ychydig i'w drafod, yn lle am 8.15 a.m.? Yr ydym fel arfer wedi darfod ymhên 10 munud, beth bynnag. Teimlaf fod 8.30 a.m. yn ddigon cynnar oherwydd fy mod yn siŵr nad ydym wedi cyfarfod am fwy na hanner awr y rhan fwyaf o'r amser, ar wahân i'r adegau hynny pan oeddem yn ystyried y Mesur iechyd.

[32] **David Lloyd:** Mae hwnnw'n un sylw. A oes gan rywun sylw arall?

[33] **Alun Davies:** Yr wyf wedi dweud hyn o'r blaen, ond byddwn yn ddigon hapus inni gyfarfod yn ystod Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad. Byddai prynhawn dydd Mercher yn amser addas i wneud hynny.

[34] **Eleanor Burnham:** Ni fyddwn yn hapus i wneud hynny, gan fod amser i'r gwrthbleidiau wedi'i neilltuo yng Nghyfarfod Llawn prynhawn dydd Mercher. O ran egwyddor, os ydym am wneud hyn o gwbl yn ystod y Cyfarfod Llawn, hoffwn inni gwrdd yn ystod amser y Llywodraeth. Ni fyddai'n ddemocrataidd disgwyl i ni gwrdd yn ystod amser y gwrthbleidiau ar brynhawn dydd Mercher.

[35] **David Lloyd:** Nid oeddw'n am ailgychwyn y drafodaeth honno. Nid dyna oedd y syniad.

[36] **Alun Davies:** Nid amser y gwrthbleidiau yw hwnnw, ond amser y Cynulliad, sy'n wahanol iawn. Dyna paham yr wyf yn awgrymu'r amser hwnnw, gan ei fod yn amser i bawb ohonom. Felly, byddai'n amser cyfleus i ni gyfarfod, ond, fel y Cadeirydd, nid wyf am ailgychwyn y

think that we agreed that we should continue with our 8.15 a.m. slot if we were discussing something of substance, such as scrutinising a Measure, but we should seek a different time if we had a quick meeting. However, given everything that is involved in organising a formal meeting in the Assembly, such as liaising with staff and the translation service, I want to have a word with Anna to see whether we can find a different slot when we require only a brief meeting. That suggestion should allay some concerns.

Eleanor Burnham: Would it be possible for us to start at 8.30 a.m. when we have only a small amount to discuss, rather than at 8.15 a.m.? We have usually finished within 10 minutes, anyway. I feel that 8.30 a.m. is early enough, because I am fairly sure that we have never taken more than half an hour for most of our meetings, apart from when we were considering the health Measure.

David Lloyd: That is one comment. Does anyone else have another?

Alun Davies: I have said this before, but I would be perfectly content for us to meet during the Assembly's Plenary meetings. Wednesday afternoons would be a suitable time for us to that.

Eleanor Burnham: I would not be happy to do that, given that time is allocated during Plenary on Wednesday afternoons to the opposition parties. On a point of principle, if we are to do this at all during Plenary, I would prefer us to meet in Government time. It would not be democratic to expect us to meet during the time of the opposition parties on a Wednesday afternoon.

David Lloyd: I did not want to rekindle that debate. That was not the idea.

Alun Davies: It is not opposition time, but Assembly time, which is very different. That is why I suggested that time, because it is time for every one of us. Therefore, it would be a convenient time for us to meet, but, like the Chair, I do not want to that rekindle that debate.

drafodaeth honno.

8.30 a.m.

[37] **Eleanor Burnham:** Os nad ydym yn y Siambr ar gyfer un o'r eitemau yr ydym yn gobeithio cael siarad amdani, ni fyddwn yn cael siarad. Collais gyfle ychydig fisoedd yn ôl. Euthum i'r caffi i siarad gyda rhai o'm hetholwyr, ond nid oeddwn wedi sylweddoli nad oedd teledu byw ar gael yno, ac fe gollais fy lle, oherwydd deuthum i mewn i'r Siambr tua munud ar ôl i'r Gweinidog eistedd i lawr. Felly, ni fyddai'n beth doeth i'r sawl ohonom sy'n Aelodau'r gwrthbleidiau, heb fod yn y Llywodraeth.

Eleanor Burnham: If we are not in the Chamber for one of the items on which we hope to speak, we will not be called. I lost an opportunity some months ago, because I had gone up to the public cafe to speak to some constituents, without realising that there was no live television feed upstairs, and so I missed my slot, because I went into the Chamber about a minute after the Minister had sat down. So, that would not be wise for those of us who are opposition Members and not in the Government.

[38] **David Lloyd:** Fel y dywedais, nid oeddwn am ailagor y drafodaeth hon. Efallai y gallwn ddweud y cawsoch gyfle i fod yn y Llywodraeth, ond mater arall yw hwnnw.

David Lloyd: As I said, I did not wish to rekindle this debate. Perhaps I could say that you had an opportunity to be in Government, but that is another matter.

[39] **Eleanor Burnham:** Mae hynny'n hollol annheg a hyd yn oed yn afresymol.

Eleanor Burnham: That is totally unfair and is even unreasonable.

[40] **David Lloyd:** Mae Anna yn gwranddo ar y sylwadau hyn, yn naturiol.

David Lloyd: Anna is listening to these comments, naturally.

[41] **Andrew R.T. Davies:** I do not think that 8.30 a.m. is enough of a shift from 8.15 a.m. to make a difference, to be honest. Alun's proposal resonates with my position. I do not think that anything would be lost from a five or 10 minute meeting by squeezing it in on a Wednesday afternoon. If it is an official Assembly committee, I believe that the Presiding Officer or Deputy Presiding Officer will be obliged to call you to speak, because you are out of the Chamber on official Assembly business, rather than for other matters—although I stand to be corrected on that point. To be called in here at 8.30 a.m. on a Tuesday morning just for five minutes' work is laughable.

[42] **David Lloyd:** Those points have been noted.

[43] A oes rhywun arall am ddweud rhywbeth? Gwelaf nad oes. Felly, edrychwn i mewn i'r mater, ac fe gyflwynwn adroddiad. A oes unrhyw-fater-arall arall? Gwelaf nad oes.

Does anyone else wish to say something? I see not. So, we will look into the matter and present a report. Are there any other any-other-matters? I see not.

8.31 a.m.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf Date of the Next Meeting

[44] **David Lloyd:** Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 11 Mawrth, sef dydd Mawrth nesaf. Yr un fydd yr amser a'r lle. Diolch yn fawr am eich presenoldeb a diolch am y cyfieithu.

David Lloyd: The date of the next meeting is 11 March, which is next Tuesday—same time; same place. Thank you for your attendance and thank you for the translation.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.31 a.m.
The meeting ended at 8.31 a.m.